

Eich Data Personol a Newidiadau Ffin Pen-y-bont ar Ogwr Hydref 2018

Ym Mehefin 2018, cyhoeddwyd bydd y cyfrifoldeb ar gyfer darparu gwasanaethau gofal iechyd ar gyfer pobl yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sir Pen-y-bont yn trosglwyddo o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (BIP ABM) i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf (BIP CT). Er mwyn hwyluso'r newidiadau yma bydd Bwrdd Iechyd PABM yn rhannu data personol priodol, gan gynnwys data sensitif fel eich cofnod iechyd, gyda BIP CT. Bydd rhannu'r data'n digwydd yn syth er mwyn galluogi cynllunio gwasanaethau gofal iechyd yn ddi-dor o 1 Ebrill 2019.

Bydd prosesu eich data personol yn parhau yn unol â sylw preifatrwydd pob sefydliad ac mewn dull cyfreithiol fel rhan o'n tasg gyhoeddus ar gyfer darpariaeth gofal iechyd a thriniaeth ar gyfer rheolaeth systemau a gwasanaethau gofal iechyd. Mae sylwadau a gwybodaeth breifatrwydd llawn am eich hawliadau ar gael ar y tudalennau rhyngwyd dilynol:

Gwefan BIP CT: [http://cwmtaf.wales/privacy-statement-for-patient-information/?drawer=Your Information Your Rights](http://cwmtaf.wales/privacy-statement-for-patient-information/?drawer=Your%20Information%20Your%20Rights)

Gwefan BIP ABM: <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/863/home>

Oherwydd y ffordd gymhleth mae data'n cael i ddal mewn nifer o systemau ar draws BIP ABM, sefydlir trefniadau cadarn er mwyn galluogi'r ddau Fwrdd Iechyd i brosesu'r data personol angenrheidiol i gwblhau eu tasg gyhoeddus. Bydd y trefniadau yma yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018. Byddwn yn parhau i fod yn agored ac yn dryloyw am sut y defnyddir a rhannir eich data a byddwn yn eich diweddarau gydag unrhyw newidiadau mewn ffordd amserol.

Gellir darganfod gwybodaeth bellach am sut mae sefydliadau o fewn GIG Cymru yn prosesu gwybodaeth bersonol yn:

<http://www.nhsdirect.wales.nhs.uk/lifestylewellbeing/yourinfoyourrights>

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu bryderon, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data ar gyfer y sefydliad priodol gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Tŷ Ynysmeurig
Navigation Park
Abercynon
CF45 4SN

E-bost: informationgovernance@wales.nhs.uk

Swyddog Diogelu Data
Bwrdd Iechyd Prifysgol ABM
Un Porthfa Talbot
Parc Ynni Baglan
Port Talbot
SA12 7BR

E-bost: abm.dpo@wales.nhs.uk

Mae gennych yr hawl i gyflwyno cwyn am y ffordd mae eich data personol yn cael ei brosesu gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, y corff rheolaethol ar gyfer diogelu

data o fewn y DU. Gellir dod o hyd i fanylion ar www.ico.org.uk neu gallwch ffonio eu llinell help ar 0303 123 1113.